

TLODI YN Y DEYRNAS UNEDIG



Mae Cristnogion yn credu y gwnaed pob bod dynol ar lun a delw Duw (Genesis 1:26) ac y dylai pawb gael y cyfle i ffynnu a gwireddu'r potensial a blannodd Duw ym mhob un ohonom. Mae tlodi'n amddifadu pobl o'r cyfleoedd hynny. Yn y Beibl, mae Duw'n aml yn llefaru wrth bobl sydd ar y cyrion a thrwy'r bobl hynny, a daeth atom yn Iesu gan gyhoeddi cenhadaeth o fod yn newyddion da i'r tlodion. Fe'n gelwir i fynd i'r afael â phopeth sy'n caethiwo pobl mewn tlodi ac i wrando ar leisiau pawb sy'n arbenigwyr ar hynny oherwydd eu profiad o fywyd.

Rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019, dosbarthodd

Ymddiriedolaeth Trussell 1.6 miliwn o barseili bwyd argyfwng tri diwrnod i unigolion ar ben eu tennyn – y nifer mwyaf eto a 73% yn fwy na phum mlynedd yn ôl.

Mae anghydraddoldeb, newyn ac amddifadedd ar gynydd yn y DU. Mae bellach **14.3 miliwn o bobl mae tlodi'n amharu arnynt** ac amcangyfrifir bod **1.5 miliwn o bobl mewn angen dybryd** – hynny yw, nad oes ganddynt yr adnoddau mwyaf sylfaenol i gadw'n gynnes, yn sych ac yn lân. Yn ei **adroddiad ym mis Ebrill 2019**, canfu Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar Dlodi Eithafol fod profiad pobl o gael eu llethu gan dlodi a bod mewn angen am gymorth yn dod yn gynyddol gyffredin ac yn fygythiad cynyddol i'w hurddas – hyd yn oed yn achos cywilydd. Y grwpiau sydd fwyaf tebygol o brofi tlodi yw plant ac oedolion ifanc.

TLODI MEWN GWAITH

Mae'r gyfradd cyflogaeth yn uchel ar hyn o bryd, ond nid yw gwaith, hyd yn oed gwaith llawnamser, bellach yn amddiffyn llawer o deuluoedd rhag tlodi. **Mae 70% o blant tlawd mewn teuluoedd sy'n gweithio. Araf iawn fu twf yr economi dros y degawd diwethaf ac er bod yr isafswm cyflog wedi codi, erys cyflogau ar gyfartaledd yn is na'u pwynt uchaf yn 2008.** Mae llawer o waith cyflog isel hefyd yn ansefydlog.

Mae teuluoedd sydd mewn gwaith ond ag incwm isel, yn enwedig y rhai sydd â phlant, hefyd wedi gweld toriadau mawr yn eu budd-daliadau. Er bod codi'r trothwy treth incwm wedi bod o gymorth i'r rhan fwyaf o deuluoedd mewn gwaith, buont **o fwy o werth i bobl ag enillion uchel, gyda 75% o'r budd yn mynd i'r hanner cyfoethocaf o deuluoedd.**

Y GYFUNDREFN LES

Mae Credyd Cynhwysol yn graddol ddisodli'r budd-daliadau blaenorol ar gyfer pobl o oedran gweithio gyda'r bwriad o symleiddio'r gyfundrefn a chynig cymhelliad i weithio. Bu'n annibynadwy ac wedi ei weinyddu'n wael ac mae

problemau yn hanfod y cynllun, gan gynnwys yr angen i ddisgwyl am bum wythnos am y taliad cyntaf, rhywbeth a gysylltwyd â chynnydd mewn dyled a newyn. **Mae hefyd bryderon cynyddol nad yw Credyd Cynhwysol, hyd yn oed pan mae'n cael ei weinyddu a'i dalu'n briodol, yn darparu digon o arian i deuluoedd fyw arno.**

Torrwyd tua £47 biliwn o'r gyfundrefn fudd-daliadau ers 2010, a chafodd cyfraddau budd-daliadau eu rhewi ers 2016, sy'n golygu gostyngiad o 6% yn eu gwerth gwirioneddol.

Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n dibynnu'n llwyr ar y gyfundrefn fudd-daliadau yn analluog i weithio oherwydd anabledd, afiechyd neu gyfrifoldebau gofal. Nid oes unrhyw fudd i'r bobl hynny o bolisïau i gymell pobl i weithio na gostyngiadau mewn treth incwm.

BYW MEWN TLODI

Mae aelwydydd incwm isel yn gwario mwy ar nwyddau a gwasanaethau angenrheidiol – megis cludiant, bwyd ac ynni – nag aelwydydd incwm uwch. Mae'r 'premiwm tlodi' hwn yn waeth mewn cymunedau gwledig.

Mae teuluoedd sydd mewn tlodi yn lletya fwyfwy yn y sector rhentu preifat, gan arwain at gostau uwch nad yw budd-daliadau'n eu cwmpasu ynghyd â llai o sefydlogrwydd.

Bydd adeiladu polisïau effeithiol i fynd i'r afael â thlodi yn gofyn cyfuniad o fwy o adnoddau, gwell cyfleoedd gwaith a mewnbwn gan bobl y mae tlodi'n brofiad beunyddiol iddynt.

CWESTIYNAU I'W TRAFOD

Sut ydych chi'n ymateb yn ymarferol i leisiau pobl sy'n byw mewn tlodi?
Beth yn eich tyb chi ddylai diben y gyfundrefn les fod?

CWESTIYNAU I YMGEISWYR

Beth yw eich cynlluniau ar gyfer gwella Credyd Cynhwysol?

Â pha grwpiau o bobl ydych chi wedi bod yn trafod wrth ystyried sut i fynd i'r afael â thlodi yn y DU?